Robert Jones, Rhos-lan, 1745–1829
Athro, pregethwr, ac awdur

Ganwyd Robert Jones ar 13 Ionawr 1745, yn unig fab i John a Margaret Williams o'r Suntur, Llanystumdwy. Ymddengys bod ei fam yn wraig anarferol oherwydd gallai ddarllen a meddai ar gopïau o'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Er bod y cofiant i Robert Jones gan Griffith Simon yn dweud iddi farw ym 1756, mae'n debyg mai ymuno â'r 'Teulu' enwog yn Nhrefeca a wnaeth yn y flwyddyn honno, pan oedd ei mab yn un ar ddeg oed. Dim ond un enghraifft sydd ohono'n cael ei alw'n Robert Williams, er bod nifer o enghreifftiau o'r ffurf Robert ap Ioan. Dysgodd ddarllen gartref gyda'i fam, ac yn ysgol Thomas Gough a fynychodd am chwe wythnos. Yno hefyd y plannwyd hadau ei ddiddordeb mewn barddoniaeth a'r cynganeddion. Cafodd ei hyfforddi fel saer coed, ond ar lyfrau yr oedd ei fryd a darllenai unrhyw lyfr o fewn cyrraedd.

Pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed cafodd afael ar Gatecism Gruffudd Jones a dechreuodd ystyried materion ysbrydol o ddifrif. Yn y cyfnod hwn fe gafodd dröedigaeth wrth wrando ar bregethwr a'i hargyhoeddodd o'i bechod ac o'i angen am Waredwr. Ymaelododd â seiat y Methodistiaid Calfinaidd ym Mrynengan gan deimlo baich cynyddol dros gyflwr ysbrydol ei gyfoedion. Aeth i Dalacharn ddwywaith i erfyn ar Madam Bevan i sefydlu ysgolion yng ngogledd Cymru. Y tro cyntaf nid oedd gartref, ond yr ail dro addawodd gynorthwyo ar yr amod ei fod ef yn gofalu am yr ysgol (1763). Cydsyniodd â'r cais, a bu'n cadw ysgolion dros y blynyddoedd yng Nghapel Curig, Llangybi, Beddgelert, Rhuddlan, Brynsiencyn a Brynengan. Dechreuodd bregethu tra oedd yng Nghapel Curig, a hynny oherwydd bod pregethwr wedi methu cadw ei gyhoeddiad. Wynebodd erledigaeth sawl gwaith yn ystod ei oes. Yn Rhuddlan byddai anwariaid y dref yn ymosod arno ar lafar gan dyngu a rhegi'n fygythiol, a phan aeth i bregethu i Ddyserth ymosodwyd yn gorfforol arno. Tra oedd yn cynnal ysgol ym Mrynsiencyn Môn rhoddodd offeiriad lleol ei gas arno a'i orfodi i ymadael.

Ym 1770 cyhoeddodd ei waith llenyddol cyntaf, sef *Ymddiffyn Cristnogol* a argraffwyd yn ddiweddarach dan y teitl *Lleferydd Asyn*. Ynddo ymosododd ar y Parch. Zacheus Hughes a aflonyddodd ar gyfarfod cyhoeddus lle roedd Robert Jones yn pregethu, trwy chwythu corn gan amddiffyn y Methodistiaid rhag yr erlidwyr. Ym 1772 priododd â Magdalen Prichard yn Llanfihangel-y-Pennant ac fe gawsant o leiaf bedwar o blant. Aethant i fyw am saith mlynedd i dyddyn Tir Bach, Rhos-lan, lle'r oedd ganddo weithdy a ddefnyddiai hefyd fel man cyfarfod i'r Methodistiaid. Symudasant i Dŷ Bwlcyn, Dinas, Llŷn, wedyn, oherwydd bod perchennog Tir Bach yn gwrthwynebu'r Methodistiaid.

Datblygodd i fod yn un o hoelion wyth y Methodistiaid yn sir Gaernarfon ac yn bregethwr o bwys. Cyhoeddodd nifer o lyfrau yn ystod ei oes ond y pwysicaf oedd *Grawn-sypiau Canaan* (1795) a *Drych yr Amseroedd* (1820). *Grawn-sypiau Canaan* oedd y casgliad cyntaf o emynau i'w ddefnyddio'n gyffredinol gan y Methodistiaid Calfinaidd yng ngogledd Cymru. Llyfr hanesyddol oedd *Drych yr Amseroedd* yn olrhain cychwyn a thwf Methodistiaeth yng Nghymru. Yr oedd Robert Jones yn gyfeillgar â Thomas Jones, Dinbych, a Thomas Charles o'r Bala, a bu'n gweithio gyda'r ddau i baratoi argraffiad o'r Beibl Cymraeg ar ran y Gymdeithas Feiblau; cyhoeddwyd y Beibl hwnnw ym 1807. Bu farw ar 18 Ebrill 1829 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Llaniestyn.